

21 June 2018

**The sixteenth meeting of the Mynydd y Gwair Wind Farm Community Liaison Group
Construction site compound**



Attendees

Cllr Paul Northcote, Mawr Community Council
Emma North, Planning, City and County of Swansea
David Owen, Planning, City and County of Swansea
Cllr. Wyn Morgan Penllergaer Community Council
Paul Newman, Pontlliw and Tircoed Community Council
David Flatley, Farrans
Alun Thomas, Highways Dept. City and County of Swansea
Philip McDonnell, Chair
Jenny Cowley, Community Liaison Manager, Innogy Renewables UK Ltd.
Michael Williams, Construction Project Manager, Innogy Renewables UK Ltd.
Angharad Davies, Cadno Communications Ltd

1. Welcome and introductions

The chair welcomed everyone to the meeting. Three community councils were represented. There was no representative from Pontarddulais, however, Cllr. Kevin Griffiths has sent in some queries, to be dealt with during the meeting.

2. Apologies

2.1 Cllr. Kevin Griffith, Pontarddulais Town Council; Jennifer Turner (Farrans); Brigitte Rowlands, WGCA; Cllr. Frank Jones Mawr Community Council; Sgt. Philip Morris.

3. Minutes & matters arising

3.1 In relation to matter 3.5, BR had sent an e-mail following last month's meeting to express concern about work continuing beyond the 7 pm curfew. DF confirmed that this had not been a regular occurrence and since the last meeting, Farrans have cracked down on this practice.

3.2 Speed monitoring (action under 4.10) will be covered by MW in his update.

3.3 Action 5.3, dust suppression: Farrans has increased the number of bowsers being used on site to two, following the suggestion at last month's meeting. At one point, they had three bowsers out. Recent rain has helped the situation and DF feels it is now under control.

3.4 The suggestions at last month's meeting (5.4) that the old stone road might be used for vehicles has been ruled out. AT confirmed that in his professional opinion, this would not be sensible.

3.5 Peat management (6.2): Farrans are spraying the stored peat with water. Where the peat is not turfed, it is covered with plastic covering. Again, the recent rain has helped.

3.6 Cattle grids (4.14): Innogy has taken the decision to continue to use the existing cattle grids, and MW has met with BR following concerns raised. The focus needs to be on completing the fencing, as this will relieve pressures on stock movement. MW has committed to feeding back formally to BR.

3.7 The minutes were agreed as a true record of the previous meeting. Proposed by WM and seconded by EN.

4. Feedback from site visit

4.1 The chair thanked Innogy and Farrans for facilitating a site visit prior to the CLG meeting for members.

4.2 Members who had attended found the visit useful and informative.

4.3 It was agreed that a further site visit be organised at around the time that the turbines get delivered to site and are installed.

5. Update from Michael Williams

5.1 Approximately 10km of track is now complete. Western side almost complete (as far as the Control Building), now more focus towards eastern side. There is approximately a further 4 km of track to be completed.

5.2 Turbine steel-fixing is well advanced on T108 and T107 with concrete pours to commence next week. Elsewhere T105, T104, T102, T201 and T202 are at various stages of readiness – generally excavated and blinded ready for the steel-fixers. Steel-fixers have made a start on T105. The steel has been delivered to site at most of these locations. Steel fixers started on 11th June. Shutters on site.

5.3 The first concrete pour will be in the week beginning 26th June, a week later than previously advised (see 5.12 below).

5.4 There are now a total of 16 foundation cans on site.

5.5 The fencing contractor is still to complete the fencing to the eastern side of the site. All posts have been installed, but not the netting, as yet. The delays are due to supply issues and weather, as discussed at previous meetings.

5.6 As referenced at the last meeting, Farrans has cut open the crossing points to enable stock to get from one side to the other. MW met with BR and a local farmer, to discuss this matter, recently.

5.7 As referenced in the last meeting, Farrans has now cut the ducting laid on the surface (western side of site) to facilitate stock and farmers crossing the site.

5.8 Ploughing will restart now that track is complete (in this area). Meeting next week with Contractor to plan remobilisation.

5.9 Earthworks working ahead of the track around T202. Commenced at T101, T103 and T106. The main focus has been completing the track to the site of the control room. This has now been achieved. Plant sent ahead and a plateau has been created ready for mobilisation of Control Building contractor next week.

5.10 MW confirmed that further speed monitoring had taken place following the complaint raised at last month's meeting by PN (Pontlliw) about speeding on the Penllergaer to Tircoed road. The monitoring took place on 25th May for 1 hour, with the following findings: Generally, the speed limit was well observed by delivery drivers. Speed limit is 40mph. Thirteen construction lorries travelled through, with 11 observing the speed limit, and two travelling in excess of the limit (one at 44 mph and the other at 45 mph). During the time of observance, and by comparison, there were 12 non-construction-related vehicles recorded during the one-hour period: Twelve vehicles were recorded doing 50-55 mph; 2 coaches (42, 43mph); 3 buses (45, 43, 44mph), and 1 agricultural lorry (48mph). The road is on a downhill stretch, which can cause vehicles to speed up slightly. All transgressions are reported to Farrans and are dealt with strictly (in some cases, drivers have been struck off).

5.11 Following the complaint about the noise of vehicles travelling over the cattle grid at the Bolgoed Road entrance (discussed at the last meeting), the grid has now been removed and the pit filled with stone and capped with concrete. At the end of construction, the cattle grid will be reinstated.

5.12 The concrete pours (where the turbine bases are filled with concrete) will begin on 26th June. Innogy is now planning to undertake 2 pours/week over 8 weeks (rather than over 16 weeks), completing in August. However, as with all aspects of construction, delays are possible, due to weather, lack of progress, supply issues, prioritising stone deliveries etc. This work will see 50 lorries/day coming to site on the two days that the concrete pours will take place. All lorry movements will have been specified in the EIS (Environmental Impact Statement). The concrete pour for each turbine needs to be completed within the day, and so the local authority has granted Innogy permission to extend the working day, on a temporary basis, to facilitate this, from 6 am until 8 pm, on the days when the concrete pours take place. DO confirmed this. The concrete pump will be on site at 6 am, with deliveries likely to start at 6.30 am. In all likelihood, the deliveries will complete by 4 pm with finishing works going on later into the early evening.

However, the extended working day gives Innogy the flexibility they need, should the work be delayed in any way.

5.13 MW confirmed that there was a communications plan, and letters would be sent to local residents alerting them to the temporary change in working hours, and an e-mail to those on the database. JC will send an electronic version of the notice to CLG members, so that they can distribute this within their communities and across their community council channels, such as newsletters, website and Facebook. Tim's blog is in the process of being updated.

5.14 PN felt that the biggest inconvenience would be the actual turbine deliveries. Most of the work thus far had been contained on the common, whereas the turbine deliveries would cause inconvenience beyond the common, along the transport route, impacting many more people.

5.15 The rubbish issue raised at the last meeting has now been resolved. PN (Mawr) confirmed that the matter had improved and he had not had any further complaints.

5.16 WM has received a complaint about a lorry driving through a red light at a crossing near the school in Penllergaer. Members agreed that this was serious. WM will forward the details on to JC, and if it transpires that the vehicle is related to the construction, the matter will be followed up.

6. Update from Jenny Cowley

6.1 A small number of residents on Bolgoed Road living close to the site entrance have complained about the number of lorries accessing the site, which they allege are uncovered, speeding and beeping their horns. Once again, JC reiterated that repeat offenders are removed from site, drivers are regularly briefed, and monitoring has taken place. The Chair commented that given the number of vehicle movements, there was likely to be a small number of transgressions. JC felt that the monitoring proved that, in fact, there were very few transgressions. Nevertheless, those living closest to the site entrance, do feel the greatest impact, and this is regrettable.

6.2 JC urged members to continue to encourage people to report transgressions (time of offence and a record of the vehicle's registration number is hugely helpful), as it helps to reinforce the message with the drivers.

6.3 It was confirmed that the guard at the site entrance is able to see lorries approaching the barrier from all angles, and so drivers should not need to beep their horns to get his attention. DF agreed to erect a sign, asking drivers not to sound their horns out of respect for local residents. **Action: DF to erect signage.**

6.4 JC had received correspondence forwarded by PN (Pontlliw) complaining about construction lorries driving through the village as early as 6.30 am. EN had responded to PN to explain that the working hours restriction referred to vehicles entering site (they cannot enter site before 7.30 am) and did not prohibit vehicles approaching site, beforehand. In some cases, however, lorries had been entering site early and Farrans are now keeping the site gate locked until 7.30 am which has improved the situation. Lorries arriving early are parking at the large layby further up Bolgoed Road, which is allowed.

6.5 A small number of Bolgoed Road residents have contacted EN, KG, the local MP and local AM, about a number of issues (including those outlined above). MW, JC and KG had met with the residents earlier in the day. Unfortunately, as they live close to site, they are most impacted.

6.6 One resident had complained about stones on the road. Farrans have since instructed the member of staff at the site entrance to regularly sweep the area to get rid of stones. Similarly, loose stones on 'Truckpave Turn' will also be cleared.

6.7 JC gets regular correspondence from one Bolgoed Road resident and she is making arrangements to meet with them again, soon.

6.8 Kevin Griffiths had written following a meeting with a local Bolgoed Road resident who claimed they had counted 90 lorries entering site on one day, and that vehicles were still coming off site at 8 pm. Innogy and Farrans confirmed that indeed, there could well be a greater number of lorries on some days, compared to others, but that the number of deliveries was not greater. Seeing as deliveries come to an end at 5 pm, the vehicles coming off site at 8 pm are likely, therefore, to be employees leaving the site having finished work

at 7.30. Farrans instruct staff not to leave site via Bolgoed Road after 7.30. DO commented that staff driving their own vehicles are entitled to use any roads to enter and exit the site.

6.9 A Cwmdulais resident has asked that a junction be marked at the entrance to his property, giving him right of way. This is not public highway. Innogy has looked at the matter and ruled this out, as it would be unsafe. AT, an experienced highways engineer, agreed that this was not sensible. The resident has in the past deliberately parked his vehicles in such a way as to cause disruption to the construction, and in these cases, Innogy has had to inform the police.

6.10 PN (Mawr) had forwarded a query from a local resident, to which JC had responded. The query concerned the growth of thistle on the verge. The Ecologist had been consulted and Innogy will undertake to control the thistles.

6.11 The second query from the Mawr resident related to the plans for the control building, which JC had forwarded to PN. The control building compound will be approx. 50x50 m and the building itself will be approx. 20x10 m.

7. AOB

7.1 DO reminded members that the only physical works needing to be undertaken on the public highway to enable the larger deliveries (AILs - turbines and towers) is at the roundabout in Penllergaer village, where the two splitter islands and the roundabout need to be removed, so that the AILs can travel through the village. Once the deliveries have been made, the infrastructure will be reinstated (with knock-down bollards, instead of fixed bollards). This work is scheduled to take place during the school summer holidays, probably on a Sunday.

7.2 Yellow lines will be painted outside the former Castle pub in Pontlliw, where the road narrows. These are temporary only, to ensure that no cars park here during the AILs.

7.3 The Pontlliw bridge is high enough to allow the large lorries to travel underneath, safely.

7.4 The first tower delivery is likely to take place on 17th September, with a dry run scheduled shortly before this. **(Action: MW to inform members of the trial run date).** It is possible to erect two turbines per week, in good conditions. There are two components per AIL, which means that there will be a total of 144 AIL deliveries. The AILs will be escorted by the police, consisting of one police car and 3 motorcycle out-riders. The AILs will operate after 9.30 am and before 3.30 pm. Members were reassured that the procedure is a tried and tested one, but members still expressed concern about the potential to impact on traffic. The components are being delivered from Swansea Port.

7.5 A comprehensive communications plan will be needed to make the process as smooth as possible and alert local residents and road-users to the deliveries and potential inconvenience. **Action: JC to draft a comms plan for consideration at the next meeting.**

8. Next meeting:

8.1 It was agreed that the next meeting will be held at the site compound on Monday 23 July at 6 pm.

8.2 The following meeting will be held on Thursday 6th September at 6 pm, at the Old Boiler House, Penllergaer.

The meeting concluded at 7.20 pm.

21 Mehefin 2018

**Yr unfed cyfarfod ar bymtheg o Grŵp Cyswllt Cymunedol Fferm Wynt Mynydd y Gwair
Compownd y safle adeiladu**



Yn bresennol

Y Cyngorydd Paul Northcote, Cyngor Cymuned Mawr

Emma North, Adran Gynllunio, Dinas a Sir Abertawe

David Owen, Adran Gynllunio, Dinas a Sir Abertawe

Y Cyngorydd Wyn Morgan, Cyngor Cymuned Penlle'r-gaer

Paul Newman, Cyngor Cymuned Pont-Iliw a Thircoed

David Flatley, Farrans

Alun Thomas, Adran Briffyrdd, Dinas a Sir Abertawe

Philip McDonnell, Cadeirydd

Jenny Cowley, Rheolwr Cyswllt Cymunedol, Innogy Renewables UK Ltd.

Michael Williams, Rheolwr Prosiectau Adeiladu, Innogy Renewables UK Ltd.

Angharad Davies, Cadno Communications Ltd.

1. Croeso a chyflwyniadau

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Roedd tri chyngor cymuned yn cael eu cynrychioli. Nid oedd cynrychiolydd o Bontarddulais, ond roedd y Cyngorydd Kevin Griffiths wedi anfon ychydig o gwestiynau, a byddai'r rhain yn cael eu trafod yn y cyfarfod.

2. Ymddiheuriadau

2.1 Y Cyngorydd Kevin Griffiths, Cyngor Tref Pontarddulais; Jennifer Turner (Farrans); Brigitte Rowlands, CCGM; Y Cyngorydd Frank Jones, Cyngor Cymuned Mawr; Sarsiant Philip Morris.

3. Cofnodion a materion yn codi

3.1 Mewn cysylltiad â mater 3.5, roedd BR wedi anfon ebost yn dilyn cyfarfod y mis diwethaf yn mynegi pryder bod gwaith yn parhau ar ôl y cyrffyw 7 pm. Cadarnhaodd DF nad oedd hyn wedi bod yn digwydd yn rheolaidd, a bod Farrans wedi bod yn fwy llym ynglŷn â hyn ers y cyfarfod diwethaf.

3.2 Bydd MW yn trafod monitro cyflymder (pwynt gweithredu dan 4.10) yn ei ddiweddariad.

3.3 Pwynt Gweithredu 5.3, atal llwch: mae Farrans yn defnyddio dau dancer ar y safle erbyn hyn, yn dilyn yr argymhelliad yng nghyfarfod y mis diwethaf. Ar un adeg roedd tri thancer ar fynd. Mae'r glaw a gafwyd yn ddiweddar wedi helpu'r sefyllfa ac mae DF yn teimlo bod y mater dan reolaeth erbyn hyn.

3.4 Mae'r awgrym a wnaethpwyd yng nghyfarfod y mis diwethaf (5.4) ynglŷn â'r posibilrwydd o ddefnyddio'r hen ffordd gerrig ar gyfer cerbydau wedi cael ei ddiystyru. Cadarnhaodd AT na fyddai hyn yn syniad da yn ei farn broffesiynol ef.

3.5 Rheoli mawn (6.2): Mae Farrans yn chwistrellu dŵr dros y mawn sy'n cael ei storio. Os nad yw'r mawn yn cael ei osod fel tyweirch, mae gorchudd plastig yn cael ei roi drosto. Unwaith eto, mae'r glaw a gafwyd yn ddiweddar wedi helpu'r sefyllfa.

3.6 Gridiau gwartheg (4.14): Mae Innogy wedi penderfynu dal i ddefnyddio'r gridiau gwartheg presennol, ac mae MW wedi cyfarfod BR yn dilyn y pryderon a fynegwyd. Mae angen canolbwyntio ar gwblhau'r gwaith ffensio, gan y bydd hyn yn lleihau'r pwysau sy'n gysylltiedig â symud anifeiliaid. Mae MW wedi ymrwymo i roi adborth ffurfiol i BR.

3.7 Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod blaenorol. Cynigiwyd gan WM ac eiliwyd gan EN.

4. Adborth o'r ymweliad safle

4.1 Diolchodd y Cadeirydd i Innogy a Farrans am hwyluso ymweliad safle ar gyfer yr aelodau cyn cyfarfod y GCC.

4.2 Roedd yr aelodau a ymwelodd â'r safle'n credu bod yr ymweliad wedi bod yn fuddiol ac yn addysgiadol.

4.3 Cytunwyd i drefnu ymweliad safle arall tua'r adeg y bydd y tyrbinau'n cael eu cludo i'r safle a'u gosod yn eu lle.

5. Diweddariad gan Michael Williams

5.1 Mae tua 10km o'r trac wedi'i gwblhau erbyn hyn. Mae'r ochr orllewinol bron yn gyflawn (cyn belled â'r Adeilad Rheoli); bydd angen canolbwyntio mwy ar yr ochr ddwyreiniol nawr. Mae tua 4km o'r trac i'w gwblhau eto.

5.2 Mae'r gwaith o osod dur ar gyfer y tyrbinau yn mynd rhagddo'n dda ar T108 a T107 a disgwylir y bydd arllwysiadau concrit yn cychwyn yr wythnos nesaf. O ran y gweddill, mae parodrwydd T105, T104, T102, T201 a T202 yn amrywio – yn gyffredinol, mae'r lleoliad wedi'i gloddio a'i dywodi yn barod ar gyfer y gosodwyr dur. Mae gosodwyr dur wedi dechrau gwaith ar T105. Mae'r dur wedi cael ei gludo i'r safle yn y rhan fwyaf o'r lleoliadau hyn. Cychwynnodd y gosodwyr dur ar 11 Mehefin. Mae'r fframiau concritio ar y safle.

5.3 Bydd yr arllwysiad concrit cyntaf yn digwydd yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 26 Mehefin, wythnos yn hwyrach nag a fwriadwyd (gweler 5.12 isod).

5.4 Mae 16 o ganiau sylfaen ar y safle erbyn hyn.

5.5 Rydym yn dal i ddisgwyl i'r contractwr gwblhau'r gwaith ffensio ar ochr ddwyreiniol y safle. Mae'r pyst i gyd wedi'u gosod, ond nid y netin. Mae'r gwaith wedi cael ei ddal yn ôl oherwydd problemau cyflenwi a phroblemau gyda'r tywydd, fel sydd wedi cael ei drafod mewn cyfarfodydd blaenorol.

5.6 Fel y nodwyd yn y cyfarfod diwethaf, mae Farrans wedi agor y manau croesi er mwyn i anifeiliaid allu mynd o un ochr i'r llall. Cyfarfu MW â BR a ffermwr lleol i drafod y mater hwn yn ddiweddar.

5.7 Fel y nodwyd yn y cyfarfod diwethaf, mae Farrans bellach wedi torri'r dwythellau a oedd wedi'u gosod ar y ddaear (ar ochr orllewinol y safle) er mwyn i anifeiliaid a ffermwyr allu mynd ar draws y safle'n haws.

5.8 Bydd y gwaith aredig yn ailddechrau gan fod y trac wedi cael ei gwblhau (yn yr ardal hon). Cyfarfod gyda'r Contractwr yr wythnos nesaf i gynllunio'r gwaith.

5.9 Mae gwaith cloddio'n cael ei wneud ar gyfer y trac o gwmpas T202. Wedi cychwyn yn T101, T103 a T106. Canolbwyntiwyd yn bennaf ar gwblhau'r trac i safle'r Ystafell Reoli. Mae'r gwaith hwn wedi'i gwblhau erbyn hyn. Mae'r peiriannau wedi'u hanfon ymlaen ac mae man gwastad wedi'i greu yn barod ar gyfer dod â chontractwr yr Adeilad Rheoli i mewn yr wythnos nesaf.

5.10 Cadarnhaodd MW fod rhagor o waith monitro cyflymder wedi cael ei wneud yn dilyn y gŵyn a godwyd yng nghyfarfod y mis diwethaf gan PN (Pont-lliw) ynglŷn â cherbydau'n goryrru ar y ffordd rhwng Penlle'r-gaer a Thircoed. Cynhaliwyd y gwaith monitro ar 25 Mai am 1 awr, ac roedd y canfyddiadau fel a ganlyn: Ar y cyfan, roedd cerbydau danfon cyflenwadau yn cadw at y terfyn cyflymder. Y terfyn cyflymder yw 40mya. Aeth un deg tri o lorïau adeiladu heibio, ac roedd 11 ohonynt yn cadw at y terfyn amser, a dwy yn teithio ar gyflymder uwch na'r terfyn (un yn gwneud 44 mya a'r llall yn gwneud 45 mya). Yn ystod y cyfnod arsylwi, ac mewn cymhariaeth, cofnodwyd 12 o gerbydau nad oeddent yn gysylltiedig â gwaith adeiladu yn ystod yr awr hon: Cofnodwyd deuddeg o gerbydau yn gwneud 50-55 mya - 2 goets (42, 43mya), 3 bws (45, 43, 44mya) ac 1 lori amaethyddol (48mya). Mae'r cerbydau'n mynd ar i lawr ar y rhan hon o'r ffordd, a gallai hynny achosi iddynt gyflymu rhywfaint. Bydd Farrans yn cael gwybod am bob achos o oryrru a bydd yn ymdrin â'r achosion yn llym (mae gyrwyr wedi cael eu diswyddo mewn rhai achosion).

5.11 Yn dilyn y gŵyn ynglŷn â sŵn cerbydau yn mynd dros y grid gwartheg ger mynedfa Heol Bolgoed (a drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf), mae'r grid wedi cael ei dynnu a'r twll wedi'i lenwi â cherrig wedi'u gorchuddio â haen o goncrit. Bydd y grid gwartheg yn cael ei ailosod ar ôl i'r gwaith adeiladu ddod i ben.

5.12 Bydd yr arllwysiadau concrit (lle bydd sylfeini'r tyrbinau'n cael eu gorchuddio â choncrit) yn cychwyn ar 26 Mehefin. Mae Innogy bellach yn bwriadu gwneud 2 arllwysiad yr wythnos dros gyfnod o 8 wythnos

(yn hytrach nag 16 wythnos), gan orffen ym mis Awst. Er hyn, fel sy'n digwydd â gwaith adeiladu o bob math, mae oedi'n bosibl oherwydd y tywydd, diffyg cynnydd, problemau cyflenwi, rhoi blaenoriaeth i gludo cerrig i'r safle, ac yn y blaen. Ar ddau ddiwrnod yr arllwysladau concrit bydd 50 lori y diwrnod yn dod i'r safle. Bydd holl symudiadau'r loriau wedi cael eu nodi yn y Datganiad Amgylcheddol. Mae angen cwblhau'r arllwysiad concrit ar gyfer tyrbîn mewn un diwrnod, felly mae'r awdurdod lleol wedi rhoi caniatâd i Innogy ymestyn y diwrnod gwaith dros dro er mwyn hwyluso hyn - o 6 am tan 8 pm ar y diwrnodau pan fydd yr arllwysladau concrit yn digwydd. Cadarnhawyd hyn gan DO. Bydd y pwmp concrit ar y safle am 6 am, ac mae'n debyg y bydd y concrit yn dechrau cyrraedd am 6.30 am. Mae'n debyg y bydd y concrit i gyd wedi cyrraedd erbyn 4 pm ac y bydd y gwaith gorffen yn parhau am ychydig oriau ar ôl hyn. Fodd bynnag, mae'r diwrnod gwaith estynedig yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i Innogy, rhag ofn i'r gwaith gael ei ddal yn ôl mewn rhyw ffordd.

5.13 Cadarnhaodd MW fod cynllun cyfathrebu wedi'i baratoi, ac y byddai llythyrau'n cael eu hanfon at drigolion lleol i'w hysbysu ynglŷn â'r newid dros dro i'r oriau gwaith, ac ebost i'r rhai sydd ar y gronfa ddata. Bydd JC yn anfon fersiwn electronig o'r hysbysiad at aelodau'r GCC, er mwyn iddynt allu ei ddsbarthu yn eu cymunedau a thrwy sianeli cyfathrebu'r cynghorau cymuned, er enghraifft cylchlythyrau, gwefan a Facebook. Mae blog Tim yn cael ei ddiweddarau.

5.14 Teimlai PN mai cludo'r tyrbînau eu hunain fyddai'n achosi'r anhwylostod mwyaf. Roedd y rhan fwyaf o'r gwaith hyd yn hyn wedi bod yn digwydd ar y comin, ond byddai cludo'r tyrbînau i'r safle'n achosi anhwylostod y tu hwnt i'r comin, ar y llwybr cludo, gan effeithio ar lawer mwy o bobl.

5.15 Mae'r broblem sbwriel a godwyd yn y cyfarfod diwethaf wedi cael ei datrys erbyn hyn. Cadarnhaodd PN (Mawr) fod y sefyllfa wedi gwella ac nad oedd wedi derbyn rhagor o gwynion.

5.16 Mae WM wedi derbyn cwyn ynglŷn â lori'n mynd drwy olau coch ar groesfan ger yr ysgol ym Mhenlle'r-gaer. Roedd yr aelodau'n cytuno bod hwn yn fater difrifol. Bydd WM yn anfon y manylion at JC, ac os canfyddir bod y cerbyd yn gysylltiedig â'r gwaith adeiladu, bydd sylw'n cael ei roi i'r mater.

6. Diweddariad gan Jenny Cowley

6.1 Mae nifer fach o drigolion Heol Bolgoed, sy'n byw yn agos at fynedfa'r safle, wedi cwyno bod llawer o'r loriau sy'n mynd i'r safle heb eu gorchuddio'n briodol, yn goryrru ac yn canu eu cyrn. Unwaith eto, dywedodd JC fod unrhyw un sy'n troseddu o hyd ac o hyd yn cael ei symud o'r safle, bod gyrwyr yn cael eu briffio'n rheolaidd, a bod gwaith monitro wedi'i gynnal. Dywedodd y Cadeirydd, o ystyried faint o gerbydau sy'n defnyddio'r ffordd, ei bod yn debygol bod ambell achos o dramgwyddo. Teimlai JC fod y monitro'n profi mai ychydig iawn o oryrru oedd yn digwydd mewn gwirionedd. Er hyn, mae'r effaith fwyaf ar y rhai sy'n byw agosaf at fynedfa'r safle, ac mae hynny'n destun gofid.

6.2 Dywedodd JC ei bod yn bwysig bod yr aelodau'n dal i annog pobl i roi gwybod am achosion o dramgwyddo (mae cofnod o amser y drosedd a rhif cofrestru'r cerbyd o gymorth mawr), gan fod hyn yn helpu i sicrhau bod y gyrwyr yn cael y neges.

6.3 Cadarnhawyd bod y gwylwr ger y fynedfa i'r safle'n gallu gweld loriau yn dod at y rhwystr o bob ongl, felly does dim angen i'r gyrwyr ganu corn i gael sylw. Cytunodd DF i osod arwydd, yn gofyn i yrwyr beidio â chanu corn er parch i'r trigolion lleol. **Gweithredu: DF i osod arwydd.**

6.4 Roedd JC wedi derbyn gohebiaeth a anfonwyd ymlaen gan PN (Pont-liliw) yn cwyno bod loriau adeiladu'n mynd drwy'r pentref mor gynnar â 6.30 am. Roedd EN wedi anfon ateb at PN gan egluro bod y cyfyngiad ar oriau gwaith yn cyfeirio at gerbydau yn mynd i mewn i'r safle (ni allant fynd i mewn i'r safle cyn 7.30 am) ac nad oedd y cyfyngiad yn gwahardd cerbydau rhag dod at y safle cyn hynny. Er hyn, roedd ambell lori wedi mynd i mewn i'r safle'n gynnar. Erbyn hyn mae Farrans yn cadw giât y safle ar glo tan 7.30 am ac mae hynny wedi gwella'r sefyllfa. Mae loriau sy'n cyrraedd yn gynnar yn parcio yn y gilfan fawr yn uwch i fyny Heol Bolgoed, ac mae hynny'n cael ei ganiatáu.

6.5 Mae nifer fach o drigolion Heol Bolgoed wedi cysylltu ag EN, KG, yr AS lleol a'r AC lleol ynglŷn â nifer o faterion (gan gynnwys y rhai a amlinellwyd uchod). Roedd MW, JC a KG wedi cwrdd â'r trigolion yn gynharach yn y dydd. Yn anffodus, gan eu bod yn byw'n agos at y safle, maent yn cael eu heffeithio'n fwy na neb arall.

6.6 Roedd un o'r trigolion wedi cwyno am gerrig ar y ffordd. Ers hynny, mae Farrans wedi gofyn i'r aelod o'r staff sydd ger mynedfa'r safle frwsio'r ardal yn rheolaidd i gael gwared ar y cerrig. Yn yr un modd, bydd cerrig rhydd ar 'Truckpave Turn' hefyd yn cael eu clirio.

6.7 Mae JC yn derbyn gohebiaeth reolaidd gan un o drigolion Heol Bolgoed ac mae'n gwneud trefniadau i'w chyfarfod yn fuan.

6.8 Roedd Kevin Griffiths wedi ysgrifennu yn dilyn cyfarfod ag un o drigolion lleol Heol Bolgoed a oedd yn honni ei fod wedi cyfri 90 o lorïau yn dod i'r safle un diwrnod, a bod cerbydau yn dal i ddod o'r safle am 8 pm. Cadarnhaodd Innogy a Farrans ei bod yn ddigon posibl bod mwy o lorïau'n dod i'r safle ambell ddiwrnod, ond nad oedd nifer y cludiadau yn fwy. Gan fod y cludiadau'n gorffen am 5 pm, mae'n debyg mai gweithwyr yn gadael y safle ar ôl gorffen eu gwaith am 7.30 pm oedd yn y cerbydau a oedd yn dod o'r safle am 8 pm. Mae Farrans yn gofyn i'r staff beidio â gadael y safle ar hyd Heol Bolgoed ar ôl 7.30 pm. Dywedodd DO fod gan staff a oedd yn gyrru eu cerbydau eu hunain hawl i ddefnyddio unrhyw ffordd i fynd a dod o'r safle.

6.9 Mae un o drigolion Cwmdulais wedi gofyn a fyddai'n bosibl rhoi marciau cyffordd ger y fynedfa i'w eiddo, gan roi hawl tramwy iddo ef. Nid yw hon yn briffordd gyhoeddus. Mae Innogy wedi edrych ar y mater ac wedi'i ddiystyru, gan na fyddai'n ddiogel. Roedd AT, peiriannydd priffyrdd profiadol, yn cytuno nad oedd hyn yn syniad da. Yn y gorffennol mae'r unigolyn wedi parcio'i gerbydau'n fwriadol mewn ffordd sy'n amharu ar y gwaith adeiladu, ac mae Innogy wedi gorfod hysbysu'r heddlu yn yr achosion hyn.

6.10 Roedd PN (Mawr) wedi anfon cwestiwn gan un o'r trigolion lleol, ac roedd JC wedi ymateb iddo. Roedd y cwestiwn yn ymwneud ag ysgall a oedd yn tyfu ar ochr y ffordd. Roedd Innogy wedi ymgynghori â'r Ecolegydd a bydd yn mynd ati i reoli'r ysgall.

6.11 Roedd yr ail gwestiwn gan yr unigolyn o gymuned Mawr yn ymwneud â'r cynlluniau ar gyfer yr adeilad rheoli, yr oedd JC wedi'u hanfon ymlaen at PN. Bydd compownd yr adeilad rheoli yn mesur tua 50x50 m a bydd yr adeilad ei hun yn mesur tua 20x10 m.

7. Unrhyw Fater Arall

7.1 Atgoffodd DO yr aelodau mai'r unig waith ffisegol y mae angen ei wneud ar y briffordd gyhoeddus er mwyn i'r cludiadau mawr allu cyrraedd y safle (llwythi anwahanadwy anghyffredin – tyrbinau a thyrrau) yw gwaith wrth y gylchfan ym mhentref Penlle'r-gaer, lle mae angen cael gwared ar y ddwy ynys holli a'r gylchfan, er mwyn i'r llwythi anwahanadwy anghyffredin allu dod drwy'r pentref. Cyn gynted ag y bydd y cludiadau wedi'u gwneud, bydd y seilwaith yn cael ei ailosod (â bolardiau taro-i-lawr, yn lle bolardiau sefydlog). Disgwylir y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud yn ystod gwyliau'r haf, ac ar ddydd Sul mae'n debyg.

7.2 Bydd llinellau melyn yn cael eu peintio y tu allan i hen dafarn y Castell ym Mhont-lliw, lle mae'r ffordd yn culhau. Llinellau melyn dros dro fydd y rhain, er mwyn sicrhau na fydd ceir wedi'u parcio yno pan fydd y llwythi anwahanadwy anghyffredin yn cyrraedd.

7.3 Mae pont Pont-lliw yn ddigon uchel i lorïau mawr allu mynd oddi tani yn ddiogel.

7.4 Mae'r tŵr cyntaf yn debygol o gael ei gludo i'r safle ar 17 Medi, a chynhelir ymarfer ychydig cyn hyn. **(Gweithredu: MW i hysbysu'r aelodau ynglŷn â dyddiad yr ymarfer).** Mae'n bosibl codi dau dyrbin yr wythnos, os yw'r amgylchiadau'n caniatáu. Mae dwy gydran ym mhob llwyth anwahanadwy anghyffredin, sy'n golygu y bydd cyfanswm o 144 o lwythi anwahanadwy anghyffredin. Bydd y llwythi anwahanadwy anghyffredin yn cael eu hebrwng gan yr heddlu – un car plismon a 3 phlismon ar feic modur. Bydd y llwythi anwahanadwy anghyffredin ar y ffordd rhwng 9.30 am a 3.30 pm. Sicrhawyd yr aelodau bod y weithdrefn wedi'i phrofi, ond roedd yr aelodau'n dal yn bryderus ynglŷn â'r posibilrwydd o broblemau traffig. Mae'r cydrannau'n cael eu cludo o Borthladd Abertawe.

7.5 Bydd angen cynllun cyfathrebu cynhwysfawr i wneud y broses mor hwylus ag sy'n bosibl a thynnu sylw trigolion a defnyddwyr ffyrdd lleol at y cludiadau a'r posibilrwydd o anhwylystod. **Gweithredu: JC i ddrafftio cynllun cyfathrebu i'w ystyried yn y cyfarfod nesaf.**

8. Cyfarfod nesaf:

8.1 Cytunwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yng nghompownd y safle ddydd Llun 23 Gorffennaf am 6 pm.

8.2 Cynhelir y cyfarfod dilynol ddydd Iau, 6 Medi am 6 pm, yn yr Hen Foelderdy ym Mhenlle'r-gaer.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.20 pm.